| Cyfenw<br>*Surname* | Rhif y Ganolfan<br>*Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd<br>*Candidate Number* |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf<br>*First name(s)* | | 0 |

**TGAU**

3020U40-1

S23-3020U40-1

**DYDD IAU, 8 MEHEFIN 2023 – BORE**
***THURSDAY, 8 JUNE 2023 – MORNING***

# CYMRAEG AIL IAITH – Uned 4
# *WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 4*

## DISGRIFIADOL, CREADIGOL A DYCHMYGUS

1 awr 30 munud
*1 hour 30 minutes*

| Adran | Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Arholwr |
|---|---|---|---|
| A | 1. | 13 | |
| | 2. | 10 | |
| | 3. | 9 | |
| | 4. | 10 | |
| | 5. | 15 | |
| B | 6. | 18 | |
| C | 7. | 25 | |
| | Cyfanswm | 100 | |

3020U401
01

**CYFARWYDDIADAU**
***INSTRUCTIONS***

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.
*Use black ink or black ball-point pen.*
*Do not use gel pen or correction fluid.*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn **yn Gymraeg** yn y lleoedd gwag priodol.
*Answer **all** questions **in Welsh** in the spaces provided.*

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y dudalen ychwanegol.
*If you run out of space, use the additional page at the back of the booklet. Question numbers must be given for all work written on the additional page.*

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill.**
***The use of dictionaries or any other resources is forbidden.***

**GWYBODAETH**
***INFORMATION***

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Mae'r marciau ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau yn cael eu nodi fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

JUN233020U40101

Ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. PJ*(X21-3020U40-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

## Adran A

**A1.** [11 + ✓ = 2] = **[13]**

Rydych chi a'ch ffrindiau yn uwchlwytho proffiliau personol ar wefan Mentor Ifanc eich ysgol. Darllenwch y proffiliau isod a chwblhewch y tabl.
*You and your friends are uploading personal profiles onto your school's Young Mentor website.*
*Read the profiles below and complete the table.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Naqib**<br> | **Enw**<br>Naqib Ahmed<br><br>**Oed**<br>Un deg pedwar<br><br>**Hoffi**<br>Chwarae gemau ar ei Xbox gyda'i chwaer<br><br>**Ddim yn hoffi**<br>Gwneud gwaith cartref | **Anna**<br> | **Enw**<br>Anna Francis<br><br>**Oed**<br>Un deg chwech<br><br>**Hoffi**<br>Gwylio fideos doniol ar YouTube<br><br>**Ddim yn hoffi**<br>Treulio amser gyda'i brawd bach | **Tom**<br> | **Enw**<br>Tom Hadley<br><br>**Oed**<br>Un deg pump<br><br>**Hoffi**<br>Chwaraeon tîm<br><br>**Ddim yn hoffi**<br>Mynd â'r ci am dro yn y glaw |

(a) Ticiwch (✓) y bocsys cywir.

| | **Naqib** | **Anna** | **Tom** | |
|---|---|---|---|---|
| **Hoffi cadw'n heini?** | | | | [1] |
| **Ddim yn hoffi tywydd gwlyb?** | | | | [1] |
| **Hoffi treulio amser gyda'r teulu?** | | | | [1] |
| **Pwy ydy'r hynaf?** | | | | [1] |

Rhaid defnyddio'r wybodaeth yn y proffiliau wrth ateb y cwestiynau isod.
*You must use the information in the profiles to answer the questions below.*

(b) Gofynnwch gwestiwn i un o'r bobl ifanc am eu hobi. [1]
*Ask one of the young people a question about their hobby.*

..............................................................................................................................................

(c) Gyda phwy hoffech chi fod yn ffrindiau? Pam? [1 + ✓ = 1] = [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig
*Examiner only*

Mae Anna yn Fentor Ifanc yn yr ysgol. Darllenwch ei phroffil ac atebwch y cwestiynau.
*Anna is a Young Mentor in the school. Read her profile and answer the questions.*



Anna Francis ydw i a rydw i'n fentor yn Ysgol Porth Wen. Mae disgyblion yn siarad gyda fi am eu problemau amser egwyl bob dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener.

Mae llawer o ffrindiau yn cael problemau achos Snapchat neu Instagram achos maen nhw'n postio lluniau cas neu yn dweud pethau cas. Rydw i'n hoffi defnyddio Instagram ar fy ffôn achos bydda i'n postio lluniau gyda ffrindiau i gael hwyl, ond mae llawer o bobl yn defnyddio'r apiau i wneud pethau ofnadwy.

Mae gweithio fel mentor yn brofiad bendigedig a gwerthfawr achos rydw i'n hoffi helpu pobl eraill a hoffwn i weithio gyda phobl yn y dyfodol.

(ch) Ticiwch (✓) yr atebion cywir yn y grid.

| | **Cywir** | **Anghywir** | |
|---|---|---|---|
| **Mae disgyblion yn siarad am eu problemau gyda Anna bob dydd.** | | | [1] |
| **Mae Anna yn helpu pobl ifanc yn ystod amser egwyl.** | | | [1] |
| **Mae Anna yn meddwl bod Instagram a Snapchat yn ofnadwy.** | | | [1] |
| **Dydy Anna ddim yn hoffi gweithio fel mentor.** | | | [1] |

Rhaid defnyddio'r wybodaeth yn y proffil wrth ateb y cwestiwn isod. Atebwch mewn brawddeg lawn.
*You must use the information in the profile to answer the question below. Answer in a full sentence.*

(d) Beth gallai Anna wneud fel gwaith yn y dyfodol? [1 + ✓ = 1] = [2]

Awgrymwch swydd addas i Anna.
*Suggest a suitable job for Anna.*

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

3020U401
03



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U40-1)

**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A2.** [5 + ✓ = 5] = **[10]**

Ysgrifennwch yn Gymraeg am sut rydych chi a'ch ffrindiau yn treulio amser gyda'ch gilydd.

(i) Disgrifiwch eich ffrind gorau. [1]

(ii) Beth ydych chi'n hoffi am eich ffrind? Pam? [2]

(iii) Beth wnaethoch chi penwythnos diwethaf gyda'ch ffrind? [2]

*Write in Welsh about how you and your friends spend time together.*

*(i) Describe your best friend. [1]*

*(ii) What do you like about your friend? Why? [2]*

*(iii) What did you do last weekend with your friend? [2]*

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

3020U401 05



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.



**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

**A3.** [3 + ✓ = 6] = **[9]**

Mae gwylio ffilmiau yn fusnes mawr heddiw ac mae pobl ifanc yn gwario llawer o arian yn mynd i'r sinema neu ar danysgrifiad Netflix. Mae'r bobl ifanc isod yn trafod sut maen nhw'n hoffi gwylio ffilmiau.

*Watching films is big business today and young people spend a lot of money on going to the cinema or on a Netflix subscription. The young people below discuss how they like to watch films.*



Emma ydw i a rydw i'n mwynhau mynd i'r sinema i wylio ffilmiau achos rydw i'n hoffi bwyta popcorn a gwylio ffilm ar sgrîn fawr.



Siôn ydy fy enw i. Rydw i'n gwylio ffilmiau Netflix ar deledu achos mae fy ffôn symudol yn sbwriel.

Carlos ydw i ac mae'n well gen i wylio ffilmiau Netflix ar fy ffôn symudol achos mae'n gyfleus.



Henna ydw i. Dydw i ddim yn hoffi gwylio ffilmiau achos rydw i'n hoffi gwylio clipiau YouTube.



Chioma ydw i a does gen i ddim ffôn symudol. Rydw i'n gwylio DVDs yn y tŷ.





ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U40-1)

Arholwr yn unig *Examiner only*

(a) Llenwch y bylchau gyda'r wybodaeth gywir:

(i) Mae .................................................................. yn hoffi gwylio ffilmiau ar ffôn symudol. [1]

(ii) Mae'n well gan .................................................................. wylio clipiau ar-lein na gwylio ffilmiau. [1]

(iii) Mae .................................................................. yn hoffi mynd allan o'r tŷ i wylio ffilmiau. [1]

(b) Ydych chi'n mwynhau gwylio ffilmiau? [✓ =1]

..............................................................................................................................................................

(c) I bwy ydych chi'n debyg? [✓ =1]

..............................................................................................................................................................

(ch) Sut?

(i) ..............................................................................................................................................................

.............................................................................................................................................................. [✓ = 2]

(ii) ..............................................................................................................................................................

.............................................................................................................................................................. [✓ = 2]

3020U401
07



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A4.** [8 + ✓ = 2] = **[10]**

Darllenwch y darn isod yna atebwch y cwestiynau.
*Read the passage below then answer the questions.*

S4C Clic

# S4C – Beth ydy'r pwynt?

Mae S4C yn sianel Gymraeg sy'n dangos llawer o raglenni teledu gwych fel *Rownd a Rownd*, *35 Awr*, *Jonathan* a *Ralïo*. Mae rhywbeth i bawb ar y sianel ond ydy S4C yn boblogaidd efo pobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol? Mae rhai pobl ifanc yn mwynhau gwylio teledu gyda'u teuluoedd ond heddiw, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwylio rhaglenni, clipiau fideo neu ffilmiau ar eu ffonau symudol neu ar dabled yn yr ystafell wely.

**Hanes y sianel**

Cafodd S4C ei lansio ar y cyntaf o Dachwedd un naw wyth dau. Enw'r rhaglen gyntaf ar y sianel oedd *SuperTed*. Enw'r cyflwynydd cyntaf oedd Robin Jones a helpodd o i sefydlu'r sianel. Doedd pawb ddim eisiau i Gymru gael sianel deledu a roedd rhaid i bobl brotestio. Stopiodd un dyn dewr, Gwynfor Evans, fwyta mewn protest er mwyn perswadio llywodraeth Prydain i roi sianel Gymraeg i Gymru!
Yn nwy fil ac un deg saith cafodd gwasanaeth digidol S4C ei lansio; enw'r gwasanaeth ydy Hansh. Mae'n boblogaidd iawn gyda phobl ifanc achos mae rhaglenni comedi a cherddoriaeth yn apelio at fwy a mwy o bobl bob mis.

**Dyfodol y sianel**

Mae rhai pobl yn meddwl bod gan S4C ddyfodol disglair ac mae gan y sianel lawer o wylwyr yn 2023, er bod mwy a mwy o wasanaethau digidol fel Netflix yn cynnig rhaglenni a ffilmiau am bris rhad bob mis. Yn wahanol i Netflix does dim rhaid talu am S4C.
Yn 2022 roedd S4C yn dathlu ei phen-blwydd yn bedwar deg oed a gobeithio byddwn ni'n gallu mwynhau rhaglenni gwych am amser i ddod.

Pob hwyl i'r sianel yn y dyfodol. Ymlaen at y cant!



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig *Examiner only*

(a) Tanlinellwch yr atebion cywir.

(i) Yn ôl y darn darllen, ble mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwylio rhaglenni, clipiau fideo a ffilmiau?

yn yr ysgol ystafell wely gyda'u teuluoedd [1]

(ii) Faint mae S4C yn gostio bob mis?

wyth bunt pum punt am ddim [1]

(iii) Ym mha flwyddyn cafodd Hansh ei lansio?

2016 2017 2019 [1]

(iv) Faint oedd oed S4C yn 2022?

40 44 50 [1]

(b) Ysgrifennwch 3 ffaith (*fact*) o'r darn **am lansio** S4C:

Ffaith 1: .................................................................................................................................... [1]

Ffaith 2: .................................................................................................................................... [1]

Ffaith 3: .................................................................................................................................... [1]

3020U401 09



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(c) Dewisiwch **un** o'r cwestiynau isod. Ysgrifennwch y cwestiwn ac yna atebwch y cwestiwn mewn brawddegau llawn.
*Choose **one** of the questions below. Write the question then answer the question in full sentences.*

Ydy S4C yn boblogaidd efo pobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol?

Ydych chi'n gwylio rhaglenni ar S4C weithiau?

Ydy S4C yn gallu denu gwylwyr newydd yn 2023?

Ydych chi'n gwylio Hansh ar Facebook, Instagram neu S4C Clic?

Cwestiwn: ..................................................................................................

Ateb: [1 + ✓ = 2] = [3]

..................................................................................................

..................................................................................................

..................................................................................................

..................................................................................................


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A5.** [8 + ✓ = 7] = **[15]**

Yn ôl arolwg diweddar mae pobl ifanc yn cyfrannu £1.7 biliwn o bunnoedd y flwyddyn i economi Prydain. Ysgrifennwch nodyn yn sôn am eich arferion gwario chi.

Rhaid i chi ysgrifennu am y canlynol:

- Sut ydych chi'n gwario eich arian? [1]
- Beth brynoch chi ddiwethaf? Pryd? [2]
- Sut fyddwch chi'n ennill arian? [2]
- Ddylai pobl ifanc roi arian at elusen? Rhowch resymau. [3]

*According to a recent survey young people contribute £1.7 billion pounds a year to the British economy. Write a note discussing your spending habits.*

*You must write about the following:*

- *How do you spend your money?* *[1]*
- *What was the last thing you bought? When?* *[2]*
- *How do you earn money?* *[2]*
- *Should young people give money to charity? Give reasons.* *[3]*

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**Adran B**

**B6.** **[18]**

Darllenwch beth mae'r tri pherson enwog o Gymru yn ei ddweud ac atebwch y cwestiynau.
*Read what the three Welsh celebrities say then answer the questions.*



**Gareth Bale – Pêl-droediwr**

**Steil a Ffasiwn**

Bydda i'n gwisgo llawer o ddillad chwaraeon achos rydw i'n cael llawer o ddillad am ddim gan Adidas a JD. Mae steil yn bwysig achos os ydych chi'n edrych yn dda, rydych chi'n teimlo'n dda. Bydda i'n treulio llawer o amser yn dewis dillad a steilio fy ngwallt bob dydd.

**Siarad ieithoedd gwahanol**

Dydw i ddim yn dda iawn am ddysgu ieithoedd. Dysgais i Saesneg a Chymraeg yn yr ysgol ac, wrth gwrs, yn Sbaen roeddwn i'n siarad tipyn bach o Sbaeneg. Mae'n bwysig deall ychydig o'r iaith ble rydych chi'n byw fel dweud "Bore da", "Diolch" ac "Os gwelwch yn dda".

**Bod yn eilun (*idol*) Cymreig**

Os ydy pobl ifanc yn meddwl fy mod i'n ddylanwad da ac yn gwneud chwaraeon i fod fel fi, mae hynny'n wych.

(a) Atebwch y cwestiynau yn y grid.

| **1a** | **Ateb 1a** | **1b** | **Ateb 1b** | **1c** | **Ateb 1c** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Beth ydy barn Gareth Bale ar steil a ffasiwn?** | ..................................... ..................................... ..................................... ..................................... ..................................... [1] | **Pam?** | ..................................... ..................................... ..................................... ..................................... ..................................... [1] | **Cytuno efo/gyda Gareth Bale – Pam?** | ..................................... ..................................... ..................................... ..................................... ..................................... [1] |


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig *Examiner only*



**Kizzy Crawford – Cantores**

**Steil a Ffasiwn**

Mae steil yn bwysig i fi achos mae'n fy helpu i ddangos fy mhersonoliaeth. Yn fy marn i mae'n bwysig bod pawb yn cael mynegi eu hunain heb boeni am beth mae pobl eraill yn ei feddwl. Mae'n bwysig bod yn unigolyn ac os ydy pobl ifanc eisiau gwisgo dillad "gwahanol", dylai pawb fod yn hapus iddyn nhw wneud hynny!

**Siarad ieithoedd gwahanol**

Saesneg ydy fy iaith gyntaf ond rydw i'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl hefyd. Mae siarad Cymraeg wedi agor drysau i fi a chynnig cyfleoedd newydd, cyffrous. Yn bendant, mae gallu siarad ac wrth gwrs canu mewn mwy nac un iaith yn fendigedig!

**Bod yn eilun (*idol*) Cymreig**

Dydw i ddim yn enwog iawn yng Nghymru ond os ydy pobl ifanc yn edrych arna i ac yn cael eu hysbrydoli i greu cerddoriaeth neu i fod yn ganwr neu gantores, mae hynny'n gwneud i fi deimlo'n anhygoel!

(b) Atebwch y cwestiynau yn y grid.

| **2a** | **Ateb 2a** | **2b** | **Ateb 2b** |
|---|---|---|---|
| **Beth ydy barn Kizzy Crawford am siarad ieithoedd gwahanol?** | ..................................<br>..................................<br>..................................<br>..................................<br>[1] | **Sut mae'r Gymraeg wedi helpu Kizzy?** | (i) ..................................<br>..................................<br>..................................<br>[1]<br>(ii) ..................................<br>..................................<br>..................................<br>[1] |


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U40-1)

**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***



**Alex Jones – Cyflwynydd teledu**

**Steil a Ffasiwn**

Fel cyflwynydd teledu, mae'n bwysig edrych yn dda ond wrth gwrs, mae'n hawdd i fi achos mae gen i steilydd personol sy'n dewis fy nillad, gwneud fy ngwallt a gwneud fy ngholur. Rydw i'n lwcus iawn fy mod i'n gallu gwisgo pethau drud. Ond yn fy marn i does dim rhaid cael llawer o arian er mwyn edrych yn dda achos gallwch chi brynu dillad ffasiynol mewn siopau elusen neu gallwch chi wneud eich dillad eich hunain!

**Siarad ieithoedd gwahanol**

Heb yr iaith Gymraeg faswn i ddim yn gweithio i'r BBC ac yn gwneud beth rydw i'n dwlu ei wneud. Dechreuais i gyflwyno rhaglenni fel *Hip neu Sgip* ar S4C ac wrth gwrs roeddwn i ar *Strictly Come Dancing* ac ar hyn o bryd, rydw i'n gweithio ar *The One Show*. Alla i ddim diolch digon am y cyfleoedd rydw i wedi'i gael achos fy mod i'n gallu siarad Cymraeg!

**Bod yn eilun (*idol*) Cymreig**

Does dim llawer o ferched o Gymru ar y teledu y tu allan i Gymru felly rydw i'n hapus os ydy merched yng Nghymru yn edrych arna i fel Cymraes sydd wedi llwyddo.

(c) Atebwch y cwestiynau yn y grid.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3a** | **Beth ydy barn Alex Jones ar fod yn eilun Cymreig?** | ............................................<br>............................................ | [1] |
| **3b** | **Pam?** | ............................................<br>............................................<br>............................................ | [1] |
| **3c** | **Ydych chi'n meddwl bod Alex yn eilun? Pam?** | ............................................<br>............................................<br>............................................<br>............................................ | [1] |



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig *Examiner only*

(ch) Ticiwch (✓) y bocs cywir.

| **Pwy sy'n….? /** *Who…?* | **Gareth Bale** | **Kizzy Crawford** | **Alex Jones** | |
|---|---|---|---|---|
| **Cael dillad gan gwmnïau** | | | | [1] |
| **Gweithio ym myd cerddoriaeth** | | | | [1] |
| **Cael help stiwdio i edrych yn dda** | | | | [1] |

(d) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch **un** ateb. [2]

- Mae Gareth Bale yn siarad tair iaith yn rhugl.
- Mae Gareth yn meddwl bod siarad tipyn bach o Gymraeg yn bwysig.
- Dydy Gareth ddim yn gallu siarad Sbaeneg o gwbl.

(dd) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch **un** ateb. [2]

- Mae Kizzy Crawford yn hapus i fod yn eilun.
- Dydy Kizzy ddim yn hoffi bod pobl ifanc yn ei hedmygu hi.
- Dydy Kizzy ddim eisiau bod yn enwog.

(e) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch **un** ateb. [2]

- Mae'r tri pherson enwog yn meddwl bod gwisgo dillad drud yn bwysig.
- Does gan y tri pherson enwog ddim diddordeb mewn sut maen nhw'n edrych.
- Mae'r tri pherson enwog yn meddwl bod edrych yn dda yn rhywbeth positif.


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

## Adran C

**C7.** [12 + ✓ = 13] = **[25]**

Ysgrifennwch yn Gymraeg ar **un** o'r canlynol (tua 150 o eiriau).
*Write in Welsh on **one** of the following (about 150 words).*

**Naill ai**
***Either***

(a) Ysgrifennwch blog yn trafod y gosodiad "Mae gormod o arian yn cael ei wario ar Gaerdydd a dim digon yn fy ardal i."
*Write a blog discussing the statement "Too much money is being spent on Cardiff and not enough in my area."*

Rhaid i chi gynnwys:

- Beth sy yng Nghaerdydd?
- Cyfleusterau yn eich ardal
- Problemau yn eich ardal
- Beth hoffech chi wella yn eich ardal?
- Cymharu eich ardal â'ch hoff ddinas

*You must include:*

- *What's in Cardiff?*
- *Facilities in your area*
- *Problems in your area*
- *What would you like to improve in your area?*
- *Compare your area to your favourite city*

**Neu**
***Or***

(b) Ysgrifennwch stori yn sôn am ddigwyddiad arbennig yn eich bywyd.
*Write a story about a special event in your life.*

Rhaid i chi gynnwys:

- Beth oedd y digwyddiad arbennig?
- Pwy oedd gyda chi yn ystod y digwyddiad?
- Pryd yn y flwyddyn oedd y digwyddiad?
- Sut oeddech chi'n teimlo cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad?
- Beth ddysgoch chi am eich hunan ar ôl y digwyddiad?

*You must include:*

- *What was the special event?*
- *Who was with you during the event?*
- *When in the year did the event take place?*
- *How did you feel before, during and after the event?*
- *What did you learn about yourself after the event?*


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig
*Examiner only*


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.


**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**DIWEDD Y PAPUR**
***END OF PAPER***



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
| --- | --- |
| | |

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U40-1)

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U40-1)